Yn dilyn fy e-bost dyddiedig 2 Tachwedd 2015, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'r cais am wybodaeth a wnaethoch ar 30 Hydref 2015. Mae fy ymatebion i bob un o'ch cwestiynau wedi eu hamlygu mewn print trwm isod. Mae eich hawl mynediad dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer gwybodaeth gofnodedig (yn amodol ar ddefnydd priodol o esemptiadau). Nid ymddengys bod eich holl gwestiynau yn geisiadau am wybodaeth gofnodedig, ond pan fo hynny'n digwydd, rwyf wedi darparu rhywfaint o eglurhad y gobeithiaf y bydd o gymorth i chi.

1. *Deallaf fod yr Archwilydd Allanol yn dod o Loegr unwaith eto. Onid oes gennym unrhyw Archwilwyr cymwys yng Nghymru a all gyflawni'r swyddogaeth hon?*

Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn gwirionedd yw'r archwilydd allanol statudol, ond rydym wedi penodi archwilwyr i wneud gwaith ar ei ran, yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Cyfarwyddiadau a Chaffael yr Undeb Ewropeaidd. Aseswyd y cynigion yn erbyn meini prawf cyhoeddedig a'r cyflenwyr hynny y dyfarnwyd gwaith iddynt oedd wedi cael y sgôr uchaf yn ein harfarniad o'r holl dendrau. Dylwn hefyd ychwanegu ein bod yn cyflogi archwilwyr cymwys ond bod gennym economi gymysg o gyflenwad sy'n cynnwys cyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru a chontractwyr.

2. *Deallaf mai un o'r cwmnïau cyfrifyddiaeth mawr yw'r Archwilydd Allanol. Pan fo'r Cyfrifon Cynghorau Cymuned cyfartalog yn debygol o fod yn is na £20,000 y flwyddyn, pam y mae angen cwmni cyfrifyddiaeth arnom sy'n ymdrin â chwmnïau rhyngwladol? A yw Cyfrifon y Cynghorau Cymuned am gael eu craffu gan bartner y cwmni ynteu gan was bach iau?*

Y cwmnïau a benodir i wneud y gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yw'r rhai sy'n gwneud cynnig llwyddiannus am y gwaith. Bydd y gwaith yn cael ei wneud gan gyfuniad priodol o staff ym mhob cwmni, fel sy'n gyffredin gyda phob gwaith archwilio.

3. *A derbyn mai ond y Ffurflen Flynyddol, y Fantolen, a chysoniad Banc a ddarperir i'r Archwilydd Allanol, faint o amser, yn eich barn chi, y mae'r Archwilydd Allanol yn ei dreulio yn ymdrin ag Archwiliad pob Cyngor Cymuned? A derbyn hynny, beth yw'r gyfradd fesul awr a godir gan yr Archwilydd Allanol?*

Nodir y cyfraddau fesul awr yng ngraddfeydd ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â ffioedd dangosol ar gyfer y cynghorau, a seilir ar eu maint (ariannol). Gweler ein cynllun ffioedd 2015 <http://www.audit.wales/system/files/publications/fee_scheme_english.pdf Mae'r amser a dreulir gan yr archwilydd yn cynnwys cyhoeddi'r archwiliad, cynnal yr archwiliad a chwblhau'r archwiliad. Mae'n cynnwys paratoi gohebiaeth ac adolygu'r wybodaeth a ddarperir. O 2015-16 ymlaen, mae'r trefniadau ar gyfer archwiliadau yn newid ac mae'n debyg y bydd yr archwilwyr yn treulio mwy o amser ar y cynghorau llai. Fel yr adroddwyd yn ein hadroddiadau ar y cynghorau cymuned (gweler y ddolen hon ar gyfer ein hadroddiad diweddaraf o'r fath <http://www.audit.wales/publication/financial-management-and-governance-community-and-town-councils-2013-14>), rydym wedi canfod bod cynghorau llai yn tueddu i fod â mwy o broblemau. Mae'r trefniadau cyffredinol yn cymryd i ystyriaeth y risg i arian cyhoeddus cynghorau unigol, ac felly, eu bwriad yw canolbwyntio ar risgiau arbennig. Gall cynghorau gyfyngu ar eu ffi archwilio trwy wneud yn siŵr eu bod wedi sefydlu trefniadau cyfrifyddu a llywodraethu digonol ac effeithiol, gan leihau'r risgiau hyn.

4. *A fydd yr Archwilydd Allanol yn gallu gohebu yn y Gymraeg?*

Bydd. Mae hyn yn ofyniad contractiol. Ar y cam cyn-gymhwyso, roedd angen i'r cyflenwyr ddangos tystiolaeth o brofiad a gallu i ddarparu gwasanaethau o fewn amgylchedd dwyieithog (Cymraeg/Saesneg), yn ogystal â threfniadau ar gyfer bodloni anghenion cyrff archwiliedig sy'n dewis gohebu yn y Gymraeg.

Roedd eich cais dyddiedig 30 Hydref 2015 hefyd yn gofyn am y wybodaeth ganlynol:

Yn unol â'n Rheoliadau Ariannol, byddwn yn ddiolchgar pe byddech mor garedig â darparu'r dogfennau tendro ar gyfer yr Archwilydd Allanol i mi, yn ogystal â manylion y Tendrau a dderbyniwyd, fel y gellir rhoi sicrwydd i'm Cyngor ei fod yn cael y gwerth gorau ar gyfer yr Archwiliad Allanol.

Nid oes gan Gynghorau Cymuned unrhyw swyddogaeth yn y broses o benodi eu harchwilwyr allanol, ac o ganlyniad, nid yw eich Rheoliadau Ariannol yn berthnasol. Fel y nodwyd uchod, yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned. Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyfrifol, ymysg pethau eraill, am gaffael adnoddau ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol. Yn wreiddiol, mynegodd deuddeg o sefydliadau ddiddordeb yn y contract, ac o'r rhain, cymerodd saith ran yn y broses caffael. Gwrthododd y sefydliadau eraill gymryd rhan oherwydd nad oeddent yn gallu bodloni holl ofynion y contract.

Mae'r meini prawf gwerthuso a'r pwysoliadau oddi ar yr Holiadur Cyn-gymhwyso (PPQ) a'r Gwahoddiad i Dendro (ITT) wedi eu nodi isod yn eu tro, sy'n darparu golwg gyffredinol ar y dull o ddewis a gwerthuso a ddefnyddir yn ein harfarniad o dendrau a chrynhoi'r gofynion.

PQQ – Meini Prawf Gwerthuso ar gyfer dethol i gymryd rhan bellach yn y broses gaffael hon		
Meini Prawf	**Dull Gwerthuso**	**Pwysoliad**
Rhesymau dros Wrthodiad Mandadol neu Ddisgresiynol	Mewn rhai amgylchiadau, mae'n ofynnol i ni dan y gyfraith eich eithrio rhag cymryd rhan bellach mewn proses gaffael. Os nad ydych yn gallu ateb 'na' i bob cwestiwn yn yr adran Gwrthodiad Mandadol, mae'n annhebygol iawn y derbynnir eich cais, a dylech gysylltu â ni i gael cyngor cyn llenwi'r ffurflen hon. Mae gan yr Awdurdod yr hawl i'ch eithrio rhag cael eich ystyried os oes unrhyw rai o'r Rhesymau dros Wrthodiad Disgresiynol yn berthnasol ond gallai benderfynu caniatáu i chi symud ymlaen yn y broses gaffael.	Derbyn/Gwrthod
Sefyllfa Economaidd ac Ariannol	• Mae'n rhaid i sefyllfa ariannol y cyflenwr fod yn gref ar gyfer cymryd rhan mewn caffaeliad o'r maint hwn, fel y nodir yn Rheoliad 24 y Rheoliadau. • Mae'n rhaid i incwm ffi y cyflenwr fod yn ddigonol i'w alluogi i gydymffurfio â Safon Foesegol 4 Bwrdd Arferion Archwilio y Deyrnas Unedig sydd, i bob diben, yn gwahardd archwilwyr rhag derbyn ymrwymiadau archwilio os disgwylir i'r incwm ffi a enillir oddi wrth y cleient dan sylw fod yn fwy na 15 y cant o gyfanswm yr incwm ffi (a bod angen adolygiad allanol annibynnol o'r holl waith archwilio pan ddisgwylir i'r ffioedd oddi wrth un cleient fod yn fwy na 10 deg y cant o gyfanswm yr incwm ffi). At y diben hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol a'r Awdurdod yn cael ei drin fel cleient unigol. • Ceir defnyddio enw a rhif cofrestru'r sefydliad i gael adroddiad asesu risg ariannol. Os nad yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu cael adroddiad asesu risg ariannol priodol ar gyfer darparwr	Derbyn/Gwrthod

	posibl penodol, neu ei warantydd enwebedig, gallai fod yn ofynnol i'r sefydliad ddarparu mwy o wybodaeth ariannol er mwyn i asesiad allu cael ei gynnal.	
Gweithgareddau a hanes y busnes	• Mae'n rhaid i'r cyflenwr (os yw'n gwmni – y partner/partneriaid perthnasol) fod yn gymwysedig ar gyfer archwilio cyrff y sector cyhoeddus, gan fod yn archwilydd cwmni dan Ran 42 o Ddeddf Cwmnïau 2006. • Prawf y cyflenwr o hanes y busnes o lwyddiant wrth ddarparu gwasanaethau tebyg i'r rhai a restrir yn hysbysiad contract Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) ac a nodir yn y ddogfen PQQ hon; gwerthusir trwy'r ymateb i Adran 3.	derbyn/gwrthod 30
Y gallu i ymdrin â phroblemau daearyddol ac ieithyddol	• Tystiolaeth o'r gallu i gynnwys pob rhan o Gymru a chefnogi amgylcheddau dwyieithog.	derbyn/gwrthod
Cymhwysedd a gallu'r cyflenwr	• Gallu'r cyflenwr i ddangos ei fod yn bodloni'r safonau uchaf o ran sicrhau ansawdd a threfniadau archwilio. • Gallu'r cyflenwr i ddangos bod ganddo brosesau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd, cydraddoldeb a materion amgylcheddol. • Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn asesu'r ymatebion i Adran 3 o ran adnoddau, yn ogystal â chymwyseddau, sgiliau a phrofiad craidd sydd ar gael i'r cyflenwr, gan gynnwys trefniadau ar gyfer darparu cefnogaeth broffesiynol a thechnegol i'r archwilwyr.	20 20 30

ITT – Meini Prawf Gwerthuso ar gyfer dethol		
Meini Prawf	**Dull Gwerthuso**	**Pwysoliad**
Sgiliau, gwybodaeth a phrofiad	• Mae'r adolygiad o'r ymateb i gyflwyniadau'r ITT o ran sgiliau, gwybodaeth a phrofiad o archwilio'r sector cyhoeddus a'u staff yn cynnwys: - Arweinyddion Ymgysylltu arfaethedig. - Cymysgedd sgiliau a chyfansoddiad tîm.	15
Deall natur a phwrpas yr Archwilydd Cyffredinol a chyrff archwiliedig yng Nghymru	• Adolygu'r ymateb i gyflwyniadau'r ITT o ran tystiolaeth o ddealltwriaeth gref o - swyddogaethau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol. - dibenion cyrff archwiliedig y sector cyhoeddus a'r gallu i roi sylw i broblemau sydd ganddynt.	15

Sicrhau a rheoli ansawdd	• Adolygu'r ymateb i gyflwyniadau'r ITT o ran tystiolaeth o drefniadau mewnol effeithiol ar gyfer sicrhau a rheoli ansawdd i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da. • Tystlythyrau dibynadwy a pherthnasol.	15
Perthynas waith a chyfathrebu ag eraill	• Adolygu'r ymateb i gyflwyniadau'r ITT o ran tystiolaeth o berthnasoedd gwaith cadarn a chyfathrebu da– a ddangosir trwy drefniadau gweithio mewn partneriaeth, ymateb i ohebiaeth oddi wrth etholwyr a chynrychiolwyr lleol/cenedlaethol.	15
Cost gyffredinol	• Adolygu'r ymateb i gyflwyniadau'r ITT o ran - Cost gyffredinol cyflenwi gwasanaeth sylfaenol yn ystod oes y contract - Cost dybiedig cyflenwi gwasanaeth eilaidd yn ystod oes y contract, wedi ei seilio ar gyfraddau fesul awr/dydd ar gyfer darparu staff â chymwysterau priodol.	40

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau ynglŷn â'r modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Ian Phillips